

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No 23	
English	Cymraeg
Int 210 DL02	
Police rattle	Cleciwr yr Heddlu
Rattles were used by police in the early 19th century to alert the public to a crime being committed or a criminal running away. When the rattle is swung around, the blade inside it makes a loud snapping sound against the ratchet at the end of the handle. Police whistles replaced rattles in the 1880s. Gift Chief Constable Cole Hamilton, Scethrog – 318.3.2	Defnyddid clecwyr gan yr heddlu yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i rybuddio'r cyhoedd rhag troseddu neu droseddwr yn rhedeg i ffwrdd. Pan oedd heddwys yn siglo'r cleciwr roedd y llafn y tu fewn iddo'n gwneud sŵn clecian uchel yn erbyn y dannedd ar ben y ddolen. Erbyn y 1880au dechreuodd yr heddlu ddefnyddio chwibanau yn lle clecwyr. Rhodd oddi wrth Y Prif Gwnstabl Cole Hamilton, Scethrog - 318.3.2
Int 211 DL02	
Police handcuffs	Gefynnau Heddlu
Handcuffs have long been, and still are, used to restrain the arm movement of a person detained by the police. This pair of Hiatts handcuffs was used by the Breconshire Police Force in the 1930s. Each handcuff has a spring closure mechanism which requires a key to release it. Gift Sgt Jones, Brecon – 1979.A.91.1	Mae gefynnau wedi cael eu defnyddio ers amser maith i rwystro symudiadau braich rhywun a ddaliwyd gan yr heddlu. Ac wrth gwrs mae gefynnau'n cael eu defnyddio hyd heddiw. Defnyddid y pâr hwn o gefynnau Hiatts gan Heddlu Sir Frycheiniog yn y 1930au. Mae gan pob gefyn fecanwaith cau sbring sydd angen allwedd i'w ddatgloi. Rhodd Sarsiant Jones, Aberhonddu - 1979.A.91.1
Int 245 DL03	
Olor Iscanus by Henry Vaughan	Olor Iscanus gan Henry Vaughan
Henry Vaughan (1621 - 1695) was a renowned poet and physician who lived at Scethrog, near Brecon. While Vaughan is best known for his religious poetry, Olor Iscanus (Latin for <i>Swan of Usk</i>), is a collection of largely secular writings published in 1651. It reflects the troubled times in which he lived and his love of the countryside. Gift Miss Gwenllian Morgan – R678	Roedd Henry Vaughan (1621 - 1695) yn fardd a meddyg o fri a fuodd yn byw yn Scethrog ger Aberhonddu. Er bod Vaughan yn fwyaf adnabyddus am ei farddoniaeth grefyddol, mae Olor Iscanus (<i>Alarch yr Wysg</i> yn Lladin) yn gasgliad o ysgrifau seciwlar ar y cyfan a gyhoeddwyd yn 1651. Mae'n adlewyrchu'r amserau cythryblus yr oedd yn byw trwyddynt a'i gariad tuag at gefn gwlad. Rhodd oddi wrth Miss Gwenllian Morgan - R678
Int 311 DL02	
Police Helmet	Helmed yr Heddlu
This helmet belonged to Police Constable John Thomas. Originally PC66 of the Mid-Wales Constabulary, the amalgamation into Dyfed-Powys Police in 1968 required	Roedd yr helmed hon yn perthyn i'r Cwnstabl Heddlu John Thomas. PC66 oedd ei rif gwreiddiol yn Heddlu Canolbarth Cymru. Ond yn sgil uno â Heddlu Dyfed Powys ym 1968

<p>former Mid-Wales officers to precede their numbers with 600. So John Thomas became PC666. Helmets provided protection for officers and made them easily recognisable on the street.</p> <p>Gift Mr John Thomas, Brecon – 1981.3.1</p>	<p>roedd rhaid i swyddogion Heddlu'r Canolbarth gynt roi 600 o flaen eu rhifau. Felly daeth John Thomas yn Gwnstabl Heddlu PC666. Roedd helmedau'n amddiffyn swyddogion ac yn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu eu hadnabod yn hawdd ar y stryd.</p> <p>Rhodd oddi wrth Mr John Thomas, Aberhonddu – 1981.3.1</p>
Int324 DL23	
Beehive Chair	Cadair Cwch Gwenyn
<p>This 19th century chair uses a weaving technique known as Lip-Work, with each chair design being unique to the maker. Lip-work was briefly fashionable and used in gentry and urban households. This example was probably used as a lambing chair, with a compartment under the seat to place orphaned lambs to keep warm.</p> <p>Gift Mrs Cresswell, Bwlch - 448</p>	<p>Mae'r gadair hon o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn defnyddio dull gwehyddu o'r enw Plethu-Gwefus, gyda chynllun pob cadair yn unigryw i'r gwneuthurwr. Roedd gwaith plethu-gwefus yn ffasiynol am fyr dro ac fe'i defnyddid mewn cartrefi bonedd a threfol. Mae'n debyg i'r enghraifft hon gael ei defnyddio fel cadair ŵyna, gyda lle o dan y sedd i roi ŵyn amddifad i'w cadw'n gynnes.</p> <p>Rhodd oddi wrth Mrs Cresswell, Bwlch - 448</p>
Int239 DL03	
Fortune telling machine	Peiriant dweud ffortiwn
<p>Fortune telling machines were a type of amusement which would predict one's future upon receiving payment of a penny. Many were automatons but our example, from a 1930s arcade on the Brecon Promenade, has a clock-face where the hand of the 'clock' would sweep around to select a pre-written prophecy.</p> <p>Gift Mr Malcolm Johns, Brecon – 1983.15</p>	<p>Buodd peiriannau dweud ffortiwn yn fath o ddi-ddanwch a fyddai'n rhagweld dyfodol rhywun ar ôl talu ceiniog. Roedd llawer yn awtomata ond mae gan ein henghraifft ni, o arcêd o'r 1930au ar Bromenâd Aberhonddu, wyneb cloc. Byddai bys y 'cloc' yn troi o gwmpas i ddethol proffwydoliaeth a oedd wedi'i hysgrifennu'n barod.</p> <p>Rhodd oddi wrth Mr Malcolm Johns, Aberhonddu - 1983.15</p>
Int310 DL02	
Police truncheon	PASTWN YR HEDDLU
<p>The initials "WR" indicate this truncheon was produced between 1830 and 1837 during the reign of William IV (R stands for "REX", Latin for "king"). It belonged to a parish constable who, before the advent of modern policing, was responsible for delivering indicted individuals to court and preventing crime in their parish.</p> <p>Gift D. Morgan, Brynmawr - 312</p>	<p>Mae'r llythrennau "WR" yn dangos bod y pastwn hwn wedi cael ei gynhyrchu rhwng 1830 a 1837 yn ystod teyrnasiad William IV (mae R yn sefyll am "REX", sef "brenin" yn Lladin). Roedd yn perthyn i gwnstabl plwyf. Cyn dyfodiad plismona modern, cyfrifoldeb y cwnstabl yma oedd trosglwyddo unigolion wedi eu cyhuddo i'r llys, ac atal troseddu yn eu plwyf.</p>

	Rhodd oddi wrth D. Morgan, Brynmawr - 312
Int331 DL25	
Barley hummeller	'Hummeller' Haidd
This implement is a pre-1830 barley hummeller or awner from Pontybat Farm near Brecon. It was used for knocking the beard or awn from grains of barley after threshing. Barley was grown widely in nineteenth century Brecknockshire and numerous farms had malt houses where the grains were processed to make beer. Gift Howell Powell, Brecon – 302	Offeryn tynnu colion grawn yw hwn sy'n dyddio o gyn 1830. Mae'n dod o Fferm Pont-y-bat ger Aberhonddu ac fe'i defnyddid i guro grawn haidd i dynnu colion ymaith ar ôl dyrnu. Roedd haidd yn cael ei dyfu'n eang yn Sir Frycheiniog yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd gan sawl fferm fracty lle'r oedd y grawn yn cael ei drin i wneud cwrw. Rhodd oddi wrth Howell Powell, Aberhonddu - 302
Int332 DL25	
Chaff cutter	'Chaffwr' neu felin us
This chaff cutting machine comes from Crai, near Sennybridge. It was used for cutting straw chaff, hay and oats into small pieces which was then mixed with other forage and fed to horses and cattle. Few farms or stables were without one by the end of the eighteenth century. Gift Mr Howie Jones, Crai - 304	Mae'r periant torri manus hwn yn dod o Grai ger Pontsenni. Fe'i defnyddid i dorri mân us gwellt, gwair a cheirch yn ddarnau bach. Wedyn byddai'n cael ei gymysgu â phorthiant arall a'i fwydo i geffylau a gwartheg. Roedd gan y rhan fwyf o ffermydd a stablau chaffwr felly erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Rhodd oddi wrth Mr Howie Jones, Crai - 304
Int333 DL25	
Threshing machine	Peiriant dyrnu
This early 19th century threshing machine came from a farm near Erwood. The corn was fed in at the top and the chaff and grain were separated from the straw by being crushed between static and revolving drums inside. It was originally hand powered but was converted to use with an engine. Gift Mr R. Bagley, Erwood – 1144	Mae'r peiriant dyrnu hwn yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe ddaeth o fferm ger Erwyd. Roedd yr yd yn cael ei fwydo i mewn i ben y peiriant. Roedd y manus a'r grawn yn cael eu nithio oddi wrth y gwellt trwy gael eu gwasgu rhwng drymiau statig a rhai'n troi y tu fewn. Yn wreiddiol roedd yn cael ei yrru trwy law ond cafodd ei newid i'w ddefnyddio ag injan.
Cyflwynwyd gan: Liz Bickerton	Dyddiad: 19/04/2020
GEIRIAU 540	
Cwblhawyd gan:	